# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 16 Mehefin, 2016
# i'w hateb ar 21 Mehefin 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Vikki Howells (Cwm Cynon): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella cyfraddau canfod canser? OAQ(5)0064(FM)

2. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr arolwg diweddaraf o staff Cyfoeth Naturiol Cymru? OAQ(5)0059(FM)

3. Lynne Neagle (Torfaen): Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella safonau gofal ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru? OAQ(5)0072(FM)

4. Rhianon Passmore (Islwyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran sicrhau gwell cysylltiad i deithwyr rheilffyrdd yn Islwyn? OAQ(5)0066(FM)

5. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch datganoli trethi? OAQ(5)0063(FM)

6. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cyfraddau cyflogaeth diweddaraf yng Nghymru o'u cymharu â gweddill y DU? OAQ(5)0067(FM)

7. Mick Antoniw (Pontypridd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y diogelwch a roddir i weithwyr Cymru o ganlyniad i'n haelodaeth o'r DU? OAQ(5)0070(FM)

8. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd): Pa bryd bydd y Prif Weinidog yn cwrdd â Phrif Weinidogion gwledydd datganoledig eraill y DU? OAQ(5)0069(FM)**W**

9. Nathan Gill (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bŵer gwynt yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0068(FM)

10. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiect arfaethedig Metro De Cymru? OAQ(5)0062(FM)

11. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella economi Sir Benfro? OAQ(5)0060(FM)

12. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer llywyddiaeth y DU o'r UE y flwyddyn nesaf? OAQ(5)0071(FM)

13. David Melding (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal fel blaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0058(FM) **TYNNWYD YN ÔL**

14. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu economi Canol De Cymru? OAQ(5)0061(FM)

15. Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cyflymder band eang yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0065(FM)